

.Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fai 2023

Presennol– Anna Brown Cadeirydd, Neil Pringle, Ffiona Jones, Caerwyn Roberts Clerk.

Ymddiheuriadau, Mari E M Mathews, Janet Charlton.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Ebrill 2023

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod ar yr 12fed Fehefin

Materion yn codi

[1] Cymuned Di Plastig

Ymhellach i'r cyfarfod ar yr 11eg Ebrill, penderfynwyd i beidio defnyddio plastig defnydd sengl a chefnogi pob menter di blastig  
Cytunodd y Cyng Anna Brown i gynrychioli'r Cyngor ar y grŵp llywio Cymuned di Blastig

[1.1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

Bu i'r aelodau ddatgan pryder at y nifer o ddamweiniau ar yr A470 yn ymyl Zip World. Y clerch i gysylltu gyda'r heddlu ynlgyn a'r mater.

[1.2] Pont Droed/ Pont-y-Pair

Cyfeiriodd y clerch at nodyn gan Gwyn Parry Cyngor BS Conwy. Penderfynwyd ceisio'r gost ar gyfer cyngor/arweinyddiaeth ar y mater.

[1.3] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Nodwyd y ddogfen tender a baratwyd gan y Cadeirydd, fod y mater yn parhau.

[1.4] Llystyfiant Pont-y-Pair

Deallwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts yn parhau i ddilyn y mater ymlaen gyda Chyngor BS Conwy

[1.5] Dyn mewn Fan

Y clerch i atgoffa Edward Jones APCE ynglŷn â'r daflen gwaith.

[1.6] Swyddog Rheoli Prosiect

Dywedodd y clerch ei fod wedi derbyn ymholiadau am y swydd Swyddog Rheoli Prosiect.  
Y Cadeirydd a'r clerch hefyd i drafod swydd ddisgrifiad Clerch y Cyngor

[1.7] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Ffens / Ystafelloedd Newid

Cytunodd y Cyng Neil Pringle i gysylltu gydag Elgan Metcalfe ynglŷn a chodi uchder y ffens

[1.8] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.9] Mynwent Erw Hedd/Trefniadau Claddu

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair pellach gan Gyngor BS Conwy

[2] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair

Y clerc i gysylltu gyda Haf Jones ynglŷn â chwblhau'r gwaith

[2.1] Aseiad Risg Neuadd Goffa/Rhaeadr Ewynno!

Eglurodd y clerc y byddai Chris Dingsdale Cyngor BS Conwy yn cysylltu ynglŷn ag archwiliad yn ymwneud ag asbestos yn y neuadd a'r bwthyn.

[2.2] Byrddau'n Cysgodi Lleoliad Gwag wrth Westy'r Pont-y-Pair.

Cytunodd y Cyng Neil Pringle i drefnu amcan bris ar gyfer tacluso'r safle ayb, a hefyd gwerthusiad y safle gan Richard Baddley. Nodwyd bod y Cyng Elisabeth Roberts mewn cysylltiad gyda APCE i geisio ei cefnogaeth.

[2.3] Cae Chwarae Pentre' Du

Nodwyd bod y byrddau wedi eu gosod.

Y Brif Agenda

[2.4] Teithio Llesol

Nodwyd y wybodaeth a anfonwyd gan y Cyng Elisabeth Roberts bod Andy Wilkinson o Gyngor BS Conwy yn paratoi adroddiad a fyddai hefyd ar gael i'r cyhoedd, a bydd cyfle i alw i gael gair cyn diwedd Mehefin.

[2.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Ebrill 2023.  
[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynno! wedi gostwng yn gymharol i gyfnod mis Ebrill 2022.

[2.6] Jui Jitsu

Dywedodd y clerc iddo basio manylion cysylltiad Caroline Jones Cyngor BS Conwy ymlaen i Mr Abassi

[2.7] Hanging Pizzeria Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at wybodaeth gan y Cyng Elisabeth Roberts ei bod wedi cysylltu gyda Jonathan Cawley APCE a bod Mr Cawley yn bwriadu galw yn y lleoliad ac adrodd yn ôl i'r Cyngor.

[2.8] APCE Adroddiad Adolygiad Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Cytunodd y Cyng Neil Pringle gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod [Zoom] ar yr 8fed Ebrill 2023.

[2.9] Siop Pendyffryn

Gan nodi bod Siop Pendyffryn ar gael am rent/ les rhoddwyd ystyried i gynnig gan y Cyng Elisabeth Roberts efallai y byddai'r Cyngor Cymuned yn awyddus i logi'r adeilad er mwyn creu lleoliad i'r cyhoedd alw ayb.

Yn dilyn trafodaeth a gan ystyried ymrwymiad y Cyngor i faterion eraill, penderfynwyd i bedio bwrw'n mlaen ar hyn o bryd.

[3] Newidiadau i 20mya

Nodwyd y rhestr eithriad i 20mya gan Gyngor BS Conwy.

Cyfeiriodd y clerc hefyd at wybodaeth gan y Cyng Elisabeth Roberts bod cyfarfod yn cael ei drefnu gydag Asiant Cefnffyrdd a thrigolion Pentre' Du ynglŷn â chyflymder traffig a'r posibilrwydd o ostyngiad cyflymder trwy'r pentre'.

[3.1] Cyfoeth Naturiol Cymru Cau Encilfa Ffyrdd y Goedwig

Y Cyngorydd Elisabeth Roberts i adrodd ar y mater yn y cyfarfod nesaf

[3] Llogi'r Neuadd Goffa

Penderfynwyd cynnal adolygiad yn y cyfarfod nesaf.

Anna Brown, Cadeirydd